

Derbyn Disgyblion Cynradd – Cwestiynau Cyffredin

1. *A ddylwn i ddewis mwy nag un ysgol?*

Gallwch ddewis cynifer o ysgolion ag y dymunwch. Gall y cais gynnwys ysgolion y tu allan i Sir y Fflint a byddwn yn hysbysu'r Awdurdod Lleol perthnasol o'ch cais. (Fodd bynnag mae Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Dinas Caer yn gofyn i chi ddefnyddio'u ffurflen gais nhw ar gyfer ysgolion yn yr ardal honno). Hefyd os ydych yn cynnwys ysgol enwadol (Eglwys) neu ysgol sefydledig ar eich cais caiff ei anfon at yr ysgol berthnasol gan nad yw'r ALI yn awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgolion hyn.

Ein bwriad bob tro yw dyrannu'ch dewis cyntaf i chi ond os ydym yn derbyn mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael, byddwn yn troi at y meini prawf gordanysgrifio ac os nad ydych yn bodloni'r meini prawf hynny, gallwn ystyried eich ail ddewis ac yn y blaen nes y gallwn gynnig lle i'ch plentyn. Os ydych wedi nodi un ysgol yn unig, dim ond yr ysgol honno allwn ni ei hystyried. Sylwch na fydd rhestru'r un ysgol fwy nag unwaith yn rhoi gwell siawns i chi o gael lle yn yr ysgol honno.

2. *Beth sy'n digwydd os na chaf i fy newis cyntaf?*

Cesglir yr holl ddewisiadau a byddwn yn cynnig lle sydd ar gael yn yr ysgol sydd uchaf ar eich rhestr o ddewisiadau. Felly, os yw eich dewis cyntaf yn aflwyddiannus, caiff eich ail ddewis ei ystyried fel dewis cyntaf yn gyfartal â dewisiadau cyntaf eraill ar gyfer yr ysgol honno ac yn y blaen nes y byddwn yn gallu cynnig lle i'ch plentyn mewn ysgol.

3. *Beth os bydd fy holl ddewisiadau yn aflwyddiannus?*

Gallwn roi enw'ch plentyn ar restr aros, gallwch dderbyn lle mewn ysgol arall sydd â lle i'ch plentyn a defnyddio'ch hawl i apelio.

4. *Pa mor bwysig yw'r dyddiad cau?*

Mae'n **rhaid** i'ch cais ddod i law erbyn y dyddiad cau neu fel arall bydd yn cael ei ystyried ar ôl y rhai a dderbyniwyd ar amser. Mae'r dyddiad a'r amser yn cael ei nodi ar geisiadau ar-lein wrth iddynt gael eu derbyn

5. *Lle gellir dod o hyd i'r meini prawf lle mae mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael?*

Mae'r holl fanylion ar gael ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk/derbyndisbyblion

6. A ddylwn i anfon fy ffurflen i mewn yn gyflym er mwyn sicrhau fy mod yn cael cynnig fy newis cyntaf.

Caiff pob cais ei ystyried ar ôl y dyddiad cau nid yn ôl y dyddiad derbyn, oni bai fod y cais yn hwyr. Mae'r amser a roddir i rieni, tua 6 wythnos, wedi'i roi er mwyn iddynt allu ystyried eu dewisiadau yn ofalus.

7. Pryd fyddaf yn cael gwybod ym mha ysgol y cynigir lle i fy mhlentyn?

Byddwch yn cael gwybod trwy e-bost ar y dyddiad cynnig sef 16 Ebrill 2019 ac ni fydd unrhyw fanylion yn cael eu rhoi cyn y dyddiad hwnnw.

8. A fydd fy mhlentyn yn cael cludiant am ddim i fy ysgol ddewisedig?

Mae'r polisi cludiant ar gael ar www.sirffflint.gov.uk/derbyndisgyblion

9. Beth os byddaf yn symud tŷ ar ôl y dyddiad cau?

Cyn belled â'ch bod yn darparu manylion unrhyw newidiadau i'ch dewisiadau a phrawf o symud tŷ cyn 1 Mawrth 2019, gallwn wneud y newidiadau ar eich rhan.

Amserlen ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion cynradd

Ffurflenni derbyniadau ar gael i rieni	Cyfnod ystyried i'r rhieni	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni	Cyfnod dyrannu lleoedd	Rhoi gwybod i rieni:
01/10/18	01/10/18- 23/11/18	23/11/18	26/11/18 – 01/03/19	16/04/19